# 10. BRAD!

**Darllen:** Marc 14: 43-52

Pan ddaethant yn l at y lleill, fe glywsant sun torf yn cyrraedd. Roedd yna ffaglau ar y ffordd a'u golau yn adlewyrchu arfau ac arfwisg. Gwarchodwyr y Deml oedd yno, yn cael eu harwain gan Jwdas Iscariot, un o'r Deuddeg. Aeth Jwdas at Iesu gan ei gyfarch â chusan a dweud, '*Rabbi*!' Dyna arwydd ei frad i'r milwyr. Gair arbennig sydd gan Mathew a Marc am y gusan, sef *kataphilein*, cofleidiad cariadon. Cronicla Luc ymateb Iesu: *"Jwdas, ai â chusan yr wyt yn bradychu Mab y Dyn?"* Ceisiodd Iesu ddarbwyllo Jwdas o arwyddocâd ei weithred, gan roi iddo ei gyfle olaf i edifarhau, er ei fod ei hun yn nwylo'r milwyr. Tynnodd rhywun ei gleddyf a thorri clust un o weision yr archoffeiriad. Yn ôl Ioan, Simon Pedr oedd perchennog y cleddyf a chlust Malchus ydoedd. "*Rhywun o blith y rhai oedd yn sefyll gerllaw",* medd Marc. Ymwrthod â'r ffordd hon wnaeth Iesu. Gwrthododd ddefnyddio trais, boed yn ddynol nac yn angylaidd.

Gofynnodd Iesu i warchodwyr y Deml esbonio iddo pam y daethant allan i chwilio amdano yn y tywyllwch gan iddynt gael digon o gyfle i'w ddal yng ngolau dydd yn y Deml, lle bu'n dysgu ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth o dan eu trwynau. Ond hwythau biau'r awr hon. O wirfodd calon caniataodd iddynt ei gymryd; '*y Bugail da yn rhoi ei hun dros ei ddefaid'*. Wedi iddynt glymu ei ddwylo, aethant ag ef dros yr afon Cedron a heibio'r Deml i gael ei groesholi'n answyddogol yn nhw"r Archoffeiriad Caiaffas, cyn cael ei arwain i'r Deml i gyfarfod swyddogol o Lys y Sanhedrin, a chael ei ddifrïo a'i gamdrin gan brif ddynion y genedl a'u gweision.

"*Bydd drugarog wrthyf, O Dduw… y mae fy ngelynion yn gwasgu arnaf… yn Nuw yr wyf yn ymddiried heb ofni; beth a all pobl ei wneud i mi?"* (Salm 56).

**Gweddi:**

*O Arglwydd Iesu Grist,*
*yr hwn a ddywedaist mai ti yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd;*
*na wna i ni grwydro unrhyw bryd oddi wrthyt ti,*
*yr hwn yw'r ffordd;*
*nac amau dy addewidion di, yr hwn yw'r gwirionedd;*

*na gorffwys mewn dim heblaw ti dy hun, yr hwn yw'r bywyd.*
*Dysg ni trwy dy Ysbryd Glân, beth i'w gredu, beth i'w wneud,*
*ac yma le i gymryd ein gorffwys;*
*er mwyn dy enw glân. Amen.*
*(Desideriws Erasmus, 1466-1536)*